

## Hysbysiad Preifatrwydd

### Tîm Cenedlaethol Rhwydwaith Clinigol Lymffoedema Cymru

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthy ch beth i'w ddisgwyl pan gaiff eich gwybodaeth ei phrosesu gan y Tîm Lymffoedema Cenedlaethol yn Rhwydwaith Clinigol Lymffoedema Cymru. Gallwch gysylltu â'r adran yma:

Rhwydwaith Clinigol Lymffoedema Cymru  
Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cimla  
Cimla  
Castell-nedd  
SA11 3SU

Rhif Ffôn: 01639 862767 E-bost: [lymphoedema.network.wales@wales.nhs.uk](mailto:lymphoedema.network.wales@wales.nhs.uk)

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i holl ddata Rhwydwaith Clinigol Lymffoedema Cymru sy'n cynnwys cynnal y Rhaglen Wella Llid yr Isgroen Genedlaethol.

Gallwn godi eich gwybodaeth bersonol o'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni, gan eich Meddyg Teulu, gan y person sy'n eich atgyfeirio at ein gwasanaeth, neu gan eraill sy'n ymwneud â'ch gofal mewn man arall yn y Bwrdd Iechyd neu'n allanol.

Cliciwch [yma](#) i wyllo fideo syml am Hysbysiadau Preifatrwydd a sut rydym yn rheoli eich gwybodaeth i Blant a Phobl Ifanc.



#### **Pam gallwn ni brosesu eich gwybodaeth?**

Yn ôl y gyfraith, rydym ni'n gallu prosesu eich gwybodaeth bersonol o dan Erthygl 6 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) / Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU gan fod y prosesu'n angenrheidiol inni gyflawni ein gweithrediadau swyddogol fel corff GIG. Bydd adegau lle byddwn ni'n dibynnu ar seiliau cyfreithlon eraill, megis pan fydd angen prosesu er mwyn inni gydymffurfio â'r gyfraith.

Yn ôl y gyfraith, rydym ni'n gallu prosesu gwybodaeth categori arbennig o dan Erthygl 9 o'r GDPR / Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU gan fod y prosesu'n angenrheidiol er mwyn rheoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol a gwasanaethau neu'n angenrheidiol er mwyn ymgymryd â rhwymedigaethau o safbwynt maes cyfraith cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a diogelu cymdeithasol.

#### **Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio**

Rydym ni'n casglu a phrosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn rhoi gwasanaethau gofal iechyd, ac i gadw cofnodion diweddar i'n galluogi ni i reoli eich gofal yn well. Byddwn ond yn casglu'r data sydd ei angen arnom, sef gwybodaeth ddemograffig (eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni a manylion cyswllt), eich cyflyrau iechyd a'ch datblygiad, cofnodion o'ch apwyntiadau a'ch galwadau ffôn, manylion clinigol gan gynnwys eich hanes meddygol, a chanlyniadau archwiliadau perthnasol fel profion gwaed a phelydrau-X.

Hefyd, gall y wybodaeth sydd gennym amdanoch gyfrannu at Ystadegau GIG Llywodraeth Cymru, er enghraifft pa mor hir rydych wedi aros am apwyntiad.

#### **Am ba mor hir y byddwn ni'n storio eich gwybodaeth?**

Ni fyddwn ni'n storio gwybodaeth bersonol am gyfnod hirach nag sydd angen. Bydd gwybodaeth bersonol yn ddiennw pan na fydd ei hangen mwyach ar fformat adnabyddadwy. Caiff ei storio yn unol â chanllawiau cadw data'r GIG fel a ganlyn:

- Caiff gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion ei storio am 10 mlynedd;
- Caiff gwybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau nad ydynt yn ddifrifol ei storio am 10 mlynedd;

- Caiff gwybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau difrifol/digwyddiadau y mae angen ymchwilio iddynt ei storio am 20 mlynedd;
- Caiff dyddiaduron eu storio am 2 flynedd ac yna cânt eu dinistrio;
- Caiff nodiadau achosion Lymffoedema eu cadw am 20 mlynedd ers y driniaeth olaf, neu 10 mlynedd ar ôl marwolaeth;
- Caiff nodiadau lymffoedema plant eu cadw tan ben-blwydd y claf yn 26 os na chaiff ei weld;
- Caiff nodiadau Gwasanaeth Seicoleg Rhwydwaith Clinigol Lymffoedema Cymru eu cadw am 20 mlynedd ers y driniaeth olaf, neu 10 mlynedd ar ôl marwolaeth.

### Â phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?

Efallai bydd adegau lle byddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag eraill sy'n ymwneud â'ch triniaeth gofal iechyd. Gwneir hyn yn unig pan fydd sail gyfreithlon i'w wneud, ac yn unol â'r pwrpasau a restrwyd uchod.

Lle bo hynny'n orfodol, efallai byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth â'r canlynol:

- Adrannau eraill o fewn y Bwrdd Iechyd;
- Gyda sefydliadau GIG Cymru neu sefydliadau partner eraill ar gyfer gofal lymffoedema; a
- gyda'r Heddlu, cyrff cyhoeddus, cyrff rheoli, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### Sut gallwch chi gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd

Amlinellir manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data isod:

Swyddog Diogelu Data  
Pencadlys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe  
1 Porthfa Talbot  
Port Talbot  
SA12 7BR E-bost: [SBU.dataprotectionofficer@wales.nhs.uk](mailto:SBU.dataprotectionofficer@wales.nhs.uk)

### Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol?

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawliau y mae'n rhaid i ni eich gwneud chi'n ymwybodol ohonynt. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich gwybodaeth.

- Eich hawl i gael gwybodaeth;
- Eich hawl i gael cywiriad;
- Eich hawl i gael dileu gwybodaeth;
- Eich hawl i gyfyngu prosesu;
- Eich hawl i wrthwynebu prosesu;
- Eich hawl i gael trosglwyddo data.

Ni chodir tâl er mwyn i chi arfer eich hawliau. Mae gennym ni un mis i ymateb i chi. Hefyd, mae gennych chi'r hawl i wneud cwyn i awdurdod goruchwyllo os nad ydych chi'n hapus â'r ffordd mae'ch data'n cael eu prosesu. Yn y DU, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod goruchwyllo, y rhoddir ei manylion cyswllt isod:

|   |  |
|---|--|
| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru,<br>Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill,<br>Ffordd Churchill,<br>Caerdydd,<br>CF10 2HH<br>Rhif Ffôn: 0330 414 6421 | Ar-lein, sgwrs fyw:<br><a href="https://ico.org.uk/make-a-complaint/your-personal-information-concerns/personal-information-concerns/">https://ico.org.uk/make-a-complaint/your-personal-information-concerns/personal-information-concerns/</a><br>Llinell gymorth: 0303 123 1113 |
|---|--|

Mae gwybodaeth bellach ar sut i arfer eich hawliau ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/your-data-matters/>